


# 1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A201119	17-12-2020	Mr Meirion & Emyr Williams (Lampeter Tree Services Ltd)	Retention of Biomass Log Dryer Kiln, and two Chimneys and continued use of Boiler No. 1 only (within centre of building) following trial run relating to Temporary Planning Permission A190302	Cae Celyn, Llanfair Road, Lampeter, SA48 8JX	Refuse

# 1.1. A201119



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A201119
<b>Derbyniwyd / Received</b>	17-12-2020
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Retention of Biomass Log Dryer Kiln and two Chimneys and continued use of Boiler No.1 only (within centre of building) following trial run relating to Temporary Planning Permission A190302
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Cae Celyn, Llanfair Road, Lampeter, SA48 8JX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr Meirion & Emyr Williams (Lampeter Tree Services Ltd), Lampeter Tree Services, Lampeter, Ceredigion, SA48 8JX
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Phil Baxter (Asbri Planning), Asbri Planning, Suite D, 1st Floor 220 High Street, Swansea, SA1 1NW

### SAFLE'R CAIS A HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL:

Lleolir safle'r cais rhyw 65m y tu draw i'r eiddo preswyl diwethaf i'r de o Lanbedr Pont Steffan ar hyd Ffordd Llanfair. Saif y safle y tu allan i ffin Canolfan Gwasanaethau Trefol Llanbedr Pont Steffan ac felly fe'i ystyrir yn "lleoliad arall" at ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol.

O ran agosrwydd eiddo preswyl cyfagos, mae'r cymydog agosaf ar ffurf carafán sefydlog a leolir yn union i'r dwyrain o safle'r cais. Adwaenir y garafán fel 'Dolau Bachau'.

Lleolir clwstwr arall o eiddo preswyl i'r gorllewin, ac mae'r tŷ agosaf (Ty Hir) wedi'i leoli rhyw 65m o ffin safle'r cais. Mae ystad o dai newydd i'r gorllewin hefyd (ar ochr ogleddol Ffordd Llanfair).

Ar 28 Gorffennaf 2016, rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn (cyfeirnod A160157) ar y safle i godi adeilad ffrâm porthol ar wahân gyda mynediad cysylltiedig, a gwaith cynllunio a thirweddu. Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wnaeth y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog i wrthod y cynnig. Mae'r caniatâd cynllunio wedi'i gyflawni ac mae'r adeilad wedi'i gwblhau ac yn weithredol. Caiff yr adeilad ei ddefnyddio yn rhan o bencadlys busnes Gwasanaethau Coed Llambod Cyf, sef gwasanaeth contractio coed. Caiff yr adeilad ei ddefnyddio yn bennaf i storio offer coedwigaeth a diogelwch ynghyd â'r defnydd o swyddfa ategol, ystafelloedd cyfarfod, toiledau a chegin fach.

Mae Amod 7 y caniatâd cynllunio hwnnw yn datgan:

*"Er gwaethaf darpariaethau Erthygl 3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ni chaiff mwy o offer neu beiriannau eu codi ar y safle o dan nac yn unol â rhan 8 atodlen 2 y Gorchymyn hwnnw heb ganiatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol."*

Gosodwyd Amod rhif 7 er budd amddiffyn amwynderau preswyl yr ardal.

O ganlyniad i amod rhif 7, mae caniatâd cynllunio yn ofynnol er mwyn gosod unrhyw offer neu beiriant arall ar y safle.

(Noder y cydnabyddir bod darparu peiriant mewn adeilad yn disgyn yn glir i gwmpas adran 55(2)(a) [Deddf 1990](#) (h.y. heb ymwneud â datblygu) a chefnogir hyn hefyd yn adran 336 sy'n datgan nad yw "adeilad" yn cynnwys offer neu beiriant mewn adeilad. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, nid yw'r boeleri wedi'u cynnwys yn llawn yn yr adeilad, ac mae dwy simnai yn ymestyn o do'r adeilad. Yn ychwanegol at hyn, lleolir odyd sychu coed tân y tu allan i'r adeilad. Mae'r ychwanegiadau hyn wedi effeithio'n sylweddol ar olwg allanol yr adeilad. Mae angen caniatâd cynllunio ar y datblygiad cyfan, felly).

Yn 2018, gwnaed cais cynllunio ôl-weithredol (cyf: A180867) gan Wasanaethau Coed Llambod Cyf i gadw odyd sychu coed tân biomas, dau foeler biomas a dwy simnai, a chychwynnodd y gwaith ar 1 Mawrth 2018. Cyflwynwyd y cais mewn ymateb i ymchwiliad gorfodi cynllunio gan Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â thorri amod rhif 7 y caniatâd.

Mae'r offer a osodwyd yn yr adeilad heb ganiatâd yn cynnwys y canlynol:

- Odyd Sychu Coed Tân Biomas GlenFarrow;
- Dau foeler biomas GlenFarrow; a
- Dwy simnai yn ymestyn 1.7m uwchben arwynebedd to yr adeilad.

Mae'r ddau foeler biomas wedi'u gosod ym mhen pellaf dwyreiniol y prif adeilad (yn yr ardal storio offer gyffredol) a simnai yn gysylltiedig â phob un. Mae'r boeleri felly y tu mewn i'r adeilad yn llwyr, ac eithrio'r simneiau cysylltiedig, sy'n 1.7m o uchder.

Mae pob boeler yn mesur 2.75m (hyd) x 1.58m (lled) x 1.97m (uchder). Mae'r boeleri biomas yn llosgi pren gwastraff i wresogi'r olyn sychu coed tân hyd at 50 gradd celsius, gan ganiatáu i goed tân gael eu sychu.

Lleolir yr olyn sychu coed tân biomas ar hyd ochr ogleddol yr adeilad, rhwng y prif adeilad a Ffordd Llanfair. Mae'n mesur 12.19m (hyd) x 2.44m (lled) x 2.44m (uchder). Mae wal goncridd, rheiliau a chlawdd yn gwahanu'r olyn rhag y ffordd sirol.

Yn dilyn cwynion sylweddol trydydd parti, gwrthodwyd cais cynllunio A180867 dan bwerau dirprwyedig am y rhesymau a ganlyn:

*"1. Mae'r cais wedi arwain at niwed sylweddol i amwynderau preswyl y cymdogion, yn groes i ddarpariaethau Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) ac i bolisiâu DM06, LU25 a DM22 Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Ceredigion 2007-2022."*

Mae effaith yr allyriadau mwg wedi bod mor niweidiol i amwynderau preswyl yr ardal fel bod yr ymgeiswyr wedi cytuno i beidio â defnyddio'r boeleri biomas oni bai, a hyd nes y dynodir strategaeth liniaru addas.

Ar ôl i'r caniatâd cynllunio gael ei wrthod, os oedd yr ymgeiswyr am ailgyflwyno cais, fe'u cynghorwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod yn rhaid cael adroddiad manwl i gyd-fynd ag unrhyw gais o'r fath yn nodi'r hyn sy'n achosi'r allyriadau ynghyd â chynllun liniaru sydd wedi'i deilwra'n benodol i fynd i'r afael â'r broblem a bennir.

Yn 2019, derbyniwyd cais cynllunio arall gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a oedd yn ailgyflwyniad ar y cais cynllunio ôl-weithredol blaenorol a wrthodwyd (gweler cyf: A190302).

Yng nghais cynllunio A190302, argymhellodd swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod caniatâd cynllunio dros dro yn cael ei roi am fis yn unig fel y gellid cynnal cyfnod profi i gadarnhau a oedd y strategaeth liniaru a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr yn ddigonol i liniaru ac i fynd i'r afael â'r allyriadau mwg eithafol a brofwyd yn flaenorol ar y safle. Penderfynodd Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gefnogi cyfnod profi, a gwnaed y prawf hwnnw yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2020.

Mae'r caniatâd cynllunio dros dro a roddwyd dan A190302 wedi dod i ben yn awr; roedd yn para o 17 Tachwedd tan 17 Rhagfyr 2020.

## **MANYLION Y DATBLYGIAD**

Ar ôl y cyfnod profi a wnaed yn rhan o ganiatâd cynllunio dros dro A190302, mae Gwasanaethau Coed Llambod yn awr wedi ailgyflwyno cais i gadw boeler rhif 1 yn unig, sydd wedi'i leoli yn y rhan fwyaf canolog o'r adeilad.

Mae'r Strategaeth Liniaru a gyflwynwyd yn flaenorol yn rhan o gais cynllunio A190302 yn awr wedi'i hailgyflwyno yn rhan o'r cais cyfredol hwn ac mae'n nodi'r mesurau a ganlyn mewn ymgais i leihau a dileu'r allyriadau mwg eithafol a oedd yn codi o'r safle'n flaenorol:

- i. Gosod 3 ffan a fyddai'n gwresogi'r prif adeilad (gweithdy);
- ii. Glanhau a gwasanaethu'r boeleri a'r simneiau yn rheolaidd; a
- iii. Cyflogi peiriannydd GlenFarrow i fod ar y safle am 1-2 ddiwrnod i roi sylfaen hyfforddiant dda ar sut i redeg y boeleri yn y modd mwyaf effeithlon a sut i gadw'r mwg i'r lleiaf posibl.

Mae'r strategaeth liniaru yn dadlau y byddai faint o wres a ddefnyddir gan yr adeilad a'r ffaniau yn fwy na'r hyn y mae'r boeleri'n gallu ei gynhyrchu, ac felly'n atal y boeleri rhag troi i'r modd 'cysgu' ac aildanio wedi hynny.

Cyflwynwyd y canlynol hefyd i gyd-fynd â'r cais:

- Cynllun Gwasanaethu
- Manylion Powrmatic PZN/PZN X Gwresogydd Dŵr Twym (gwresogydd aer crog a gyflenwir gan ddŵr a all ryddhau aer yn llorweddol neu'n fertigol.
- GlenFarrow UK Cyf - Model Boeler Biomas GF210 - Llawlyfr Gweithredu a Chynnal a Chadw.
- Llythyr Liniaru
- Darlun Tirweddu
- Amserlen Danio Llosgyddion Biomas

ac;

- Asesiad Ansawdd Aer Biomas (Ebrill 2019) a baratowyd gan RH Environmental Cyf, gan gynnwys Cynllun Rheoli Allyriadau Biomas.

(I grynhoi, dengys yr asesiad sgrinio bod allyriadau cronol o nitrogen deuocsid a gronynnau anadladwy o'r ddau foeler yn is na'r trothwyon a allai arwain at groesi Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer cyfartalog hirdymor a thymor byr. Mae'r asesiad

wedi'i seilio ar y senario gwaethaf posibl gan gymryd bod y ddau foeler yn gweithredu'n barhaus ac ar yr un pryd.

Mae'r asesiad yn cynnwys Cynllun Rheoli Allyriadau Biomaz arfaethedig 14 pwynt.

Dengys yr asesiad sgrinio bod y peiriant biomaz yn gallu gweithredu heb gael effaith annerbyniol ar yr ansawdd aer lleol).

Nid yw'r boeleri wedi cael eu defnyddio ers i'r cyfnod profi ddod i ben a'r caniatâd cynllunio dros dro derfynu ac eithrio ar nifer fach o ddiwrnodau (yn bennaf pan ragwelwyd tywydd rhewllyd).

Mae'r cynnig yn rhan o'r cynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, sef cymhelliant ariannol gan y Llywodraeth i ddarparu'r defnydd o wres adnewyddadwy.

## **POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

### **POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL**

- Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) (Chwefror 2021)

### **NODIADAU CYNGOR TECHNEGOL (CYMRU) (TANS):**

Mae'r nodiadau cyngor technegol a ganlyn yn berthnasol wrth ystyried y cais.

- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN11 - Sŵn (1997)
- TAN12 - Dylunio (2016)
- TAN23 - Datblygu Economaidd (2014)

### **Y CYNLLUN DATBLYGU - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CEREDIGION 2007-2022**

Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth ystyried y cais:

- S01 - Twf Cynaliadwy
- SO4 - Datblygu Mewn "Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill"
- LU12 - Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd sydd heb eu Neilltuo
- LU25 - Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy
- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 - Dylunio a Thirwedd
- DM17 - Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18 - Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- DM22 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol

### **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;

- Cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Cyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i gwrdd â'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

## **YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

### **YMGYNGHOREION STATUDOL**

- Cyfoeth Naturiol Cymru - Dim gwrthwynebiad
- Dwr Cymru Welsh Water - Dim sylwadau
- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion (Draenio Tir) - Sylwadau / dim gwrthwynebiad
- Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan - Dim sylwadau
- Mr Geraint Lewis - Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ceredigion -

*"Rydym wedi cwblhau ein hymchwiliadau i'r mater hwn. Ymwelodd fy nghydwethiwr, Cara, ar 9 Rhagfyr, 15 Rhagfyr ac 17 Rhagfyr ac ymwelais i ar 16 Rhagfyr. Ni wnaed sylwadau ar 15 Rhagfyr gan nad oedd y gosodiadau yn weithredol adeg yr ymweliad.*

*O ran allyriadau mwg, roedd peth mwg i'w weld y tu draw i ffin y safle ar 9 Rhagfyr; fodd bynnag roedd yr amodau'n gyffredinol wyntog ar y diwrnod hwn. Roedd y mwg yn wyn clir bob dydd sy'n awgrymu bod yr allyriadau o'r simneiau yn lân.*

*O ran sŵn, dim ond ar 16 Rhagfyr yr oedd yr uned sychu coed tân yn weithredol a chanfuwyd nad oedd y sŵn yn uwch na'r lefel sŵn cefndirol cyffredinol ar y safle.*

*O ran yr arogl, roeddwn i a Cara yn gallu arogl sylwedd ag arogl cryf y tu draw i ffin y safle ar bob ymweliad, ar wahân i'r 15<sup>fed</sup>. Byddwn yn disgrifio'r arogl fel un prenaidd, nid yn arbennig o annymunol neu gryf, ond yn amlwg iawn.*

*Nid oedd yr arogl yn barhaus a dim ond yn awr ac yn y man y gellid ei arogl. Byddai'r arogl y tystiom ni iddo yn disgyn ymhell islaw'r prawf am niwsans statudol gan na fyddai'n ymyrryd yn sylweddol â mwynhad neu gysur unrhyw un yn yr ardal ond pe byddai modd ei arogl am gyfnodau hir ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'r wythnos, byddem yn penderfynu bod ei bresenoldeb yn debygol o achosi rhywfaint o niwed i hyfydwch yr ardal.*

*Yn ein barn ni, byddai cau'r drws rholio ar yr ochr ddwyreiniol yn lliniaru'n sylweddol ac yn rhwystr ffisegol i ledaeniad yr arogl, a dylid ei gau bob amser wrth ddefnyddio'r boeleri biomas."*

### **YMGYNGHOREION ANSTATUDOL**

Cyflwynwyd degau o lythyron o gefnogaeth a gwrthwynebiad mewn cysylltiad â'r cais.

Mae prif sail y gefnogaeth fel a ganlyn:

- Mae Gwasanaethau Coed Llambod yn rhoi gwasanaeth pwysig ac yn gyflogwr mawr yn yr ardal.
- Mae'n rhesymegol i'r cwmni ddefnyddio pren gwastraff yn ffynhonnell gwres adnewyddadwy.
- Dim effaith negyddol ar ddefnyddwyr Ffordd Llanfair.
- Bach iawn o fwg a ryddheir o'r safle.
- Dim arogl.
- Defnyddir nifer o foeleri biomas eraill yn yr ardal heb gwynion.

Mae prif sail y gwrthwynebiad fel a ganlyn:

- Mae'r biomas yn cynhyrchu allyriadau mwg amlwg, ynghyd ag arogl cryf y mae'n rhaid i drigolion cyfagos fyw ag ef. Mae hyn yn arwain at amodau byw annerbyniol.
- Mae'n achosi straen ar drigolion lleol ac mae'n cael effaith andwyol ar iechyd trigolion.

- o Nid yw'r problemau wedi'u datrys ers i'r ffaniau gael eu gosod.
- o Mae'n rhaid i'r teulu yn y garafán gyfagos drefnu eu bywydau o gwmpas cyfeiriad y gwynt, hyd yn oed pryd i olchi eu dillad.
- o Mae plentyn ifanc yn byw yn y garafán. Nid oes pryderon sylweddol mewn perthynas â'r effaith ar ei hiechyd a'i rhyddid i chwarae yn yr awyr agored.
- o Mae'n ffynhonnell llygredd.
- o Mae Gwasanaethau Coed Llambod yn fusnes ag iddo enw da sy'n cynnig cyflogaeth, ond nid dyma'r mater dan sylw.
- o Mae'r gwrthwynebwyr yn gofyn pam bod boeleri wedi'u gosod os yw'r gwres a gynhyrchir ganddynt yn cael ei golli ar raddfa mor eithafol?
- o Mae sŵn yn dod o'r odyd sychu coed tân.
- o Mae'r odyd sychu coed tân yn edrych allan o le.
- o Mae angen cynnal cyfarfod safle.

### **ASESIAD SWYDDOG:**

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan:

*"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".*

### **Y PRIF FATERION SY'N BERTHNASOL WRTH YSTYRIED Y CAIS:**

Er bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod y dylid rhoi cryn dipyn o werth ar dargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu cynhyrchiant ynni carbon isel ac adnewyddadwy, ni ellir gwneud penderfyniad ffafriol ar gais cynllunio pan fo niwed clir a sylweddol yn digwydd i amwynderau preswyl o ganlyniad i'r cais.

Yr effaith ar amwynderau preswyl y trigolion cyfagos felly yw'r brif ystyriaeth wrth asesu'r cais hwn ac yn benodol ar drigolion y garafán sydd wedi'i lleoli yn union gerllaw'r safle.

### **CEFNDIR YR ACHOS:**

Er 2018, drwy broses ddileu, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod yn ceisio sefydlu yr achos dros yr allyriadau mwg eithafol o'r boeleri.

Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi meddwl, i ddechrau, bod cynnwys lleithedd y coed tân a oedd yn cael eu llosgi yn y boeleri yn rhy uchel. (Mae pren gwlyb yn gyffredinol yn cynhyrchu mwy o fwg na phren sych, a gall hefyd ryddhau mwy o lygryddion a gronnau bach i'r aer. Mae llosgi pren gwlyb, a elwir hefyd yn bren gwyrdd, hefyd yn llai effeithlon a llai diogel na defnyddio coed tân sydd wedi'i sychu'n iawn. Bernir yn gyffredinol felly y dylai coed tân gael cynnwys lleithedd o 20 y cant neu lai).

Felly, ymwelodd Swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol â'r safle er mwyn cynnal gwiriadau ar hap ar gynnwys lleithedd y coed tân a oedd ar y safle.

Dangosodd y canlyniadau bod cynnwys lleithedd y coed tân yn llai nag 20%. Penderfynwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, felly, bod cynnwys lleithedd y coed tân yn annhebygol o fod wrth wraidd yr allyriadau mwg eithafol.

Cyn hyn, dangosodd ymweliad ar wahân â'r safle gan swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei bod yn ymddangos bod y boeleri yn cynhyrchu mwy o wres na'r hyn sy'n angenrheidiol ar y busnes neu'n cael ei ddefnyddio ganddo, oherwydd y galw isel gan y sefydliad am wres, mae'n debyg. Pan fyddai'r boeleri wedi cyrraedd tymheredd penodol ac nad oedd y gwres hwnnw'n cael ei ddefnyddio, mae'n ymddangos bod y tân yn y boeleri yn diffodd neu'r boeleri'n cael eu troi i'r "modd cysgu" a byddent ond yn aildanio pan fyddai tymheredd y boeleri wedi gostwng i lefel a sbardunai iddynt danio unwaith eto. Mae'n ymddangos bod hwn yn un o achosion y mwg eithafol gan fod y boeleri yn diffodd ac aildanio'n barhaus ac nad oeddent yn gweithredu dan yr amodau gorau a chyson posibl. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y boeleri yn gordwymo gan fod methiant i dynnu gwres ohonynt. Os yw boeler yn rhy fawr neu os oes methiant i dynnu'r gwres a gynhyrchir, yna bydd boeleri biomas yn tueddu i danio a diffodd yn aml mewn proses a elwir yn gylchredu. Mae hyn yn ddrwg am nifer o resymau a gall arwain at allyriadau uwch.

Cynigiodd yr ymgeiswyr fynd i'r afael â'r broblem drwy osod tri gwresogydd aer crog a all ryddhau aer yn llosweddol neu fertigol i brif ran yr adeilad lle cedwir yr offer coedwigaeth a pheiriannau. Y theori oedd y byddai'r ffaniau yn defnyddio neu'n 'gwaredu' y gwres gan osgoi gadael i'r boeleri ddisgyn i'r modd 'cysgu' ac yna aildanio yn barhaus.

Fel rhan o gais cynllunio A190302, cyflwynwyd strategaeth liniaru fanwl i leihau'r allyriadau mwg i'w hystyried er mwyn caniatáu cyfnod profi cychwynnol. Nodai'r strategaeth bod boeleri biomas, yn hanesyddol, yn cael eu tanio yn anghywir ac arweinai hyn at ryddhau mwg o'r simneiau am rhyw 10-15 munud. Nodai'r strategaeth bod gan y boeleri botensial i stopio

gan nad oedd digon o wres yn cael ei ryddhau yn ystod y broses.

Ar ôl cysylltu â GlenFarrow (Cynhyrchydd Boileri), roedd y strategaeth liniaru a gyflwynwyd yn dadlau y byddai gosod 3 ffan yn rhwystro hyn rhag digwydd eto.

Roedd y strategaeth arfaethedig a gyflwynwyd yn cynnig y canlynol yn benodol:

1. Gosod 3 ffan a fyddai'n gwresogi'r prif adeilad (gweithdy);
2. Glanhau a gwasanaethu'r boeleri a'r simneiau yn rheolaidd; a
3. Cyflogi peiriannydd GlenFarrow i fod ar y safle am 1-2 ddiwrnod i roi sylfaen hyfforddiant dda ar sut i redeg y boeleri ar eu mwyaf effeithlon a sut i gadw'r mwg i'r lleiaf posibl.

Pan fyddai'r 3 ffan wedi'u gosod yn yr adeilad, nodai'r strategaeth y byddai hyn wedyn yn golygu bod y boeler yn gweithio'n galetach i ymdopi â'r colli gwres.

Roedd y strategaeth yn cyfiawnhau'r defnydd o 3 ffan fel a ganlyn:

- Mae boeler GlenFarrow yn cynhyrchu 210kw

Byddai'r gwres/ygni a gynhyrchir yna'n cael ei ddefnyddio fel a ganlyn yn yr adeilad:

- Defnydd Swyddfa - 20-30kw
- (Odyn) Sychu Coed Tân - 100-140kw
- Ffaniau x 3 (105-120kw)

Byddai hyn yn ei gyfanrwydd yn arwain at golli gwres o 225-290kw yn y broses/system. Roedd y strategaeth yn dadlau, felly, bod faint o wres a ddefnyddid gan yr adeilad a'r ffaniau yn fwy na'r hyn y gallai'r boeleri ei gynhyrchu, felly'n rhwystro'r boeleri rhag troi i'r modd cysgu ac aildanio yn sgil hynny.

Mewn theori, mae hyn yn ymddangos fel petai'n cynnwys strategaeth liniaru addas; fodd bynnag, roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw mewn cof y gallai ffactorau anhysbys eraill fod yn cyfrannu at yr allyriadau mwg eithafol yma. Felly, roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyndyn o argymhell rhoi caniatâd cynllunio parhaol oni bai, ac hyd nes y gellid dangos bod y strategaeth liniaru a gyflwynwyd yn gallu mynd i'r afael â'r allyriadau mwg yn ddigonol.

O'r herwydd, rhoddwyd caniatâd cynllunio dros dro yn unig i A190302 gan ganiatáu cyfnod profi a fyddai, gobeithio, yn sefydlu a oedd y strategaeth liniaru a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr yn ddigonol i fynd i'r afael â'r allyriadau mwg eithafol a brofwyd ar y safle cyn hyn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ag argymhelliad y Swyddogion i gyfnod profi a chafodd hwn ei gyflawni wedi hynny rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2020 am gyfnod o fis.

### **CANLYNIAD Y CYFNOD PRAWF:**

Yn ystod y cyfnod profi, gwnaed naw ymweliad safle gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gwnaed pedwar ymweliad ar wahân gan Dîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor. Cadarnhaodd yr ymweliad cyntaf a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod y tri ffan crog wedi'u gosod yn yr adeilad.

Yn ystod ymweliadau safle swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gwnaed arsylwadau ar y safle yn ogystal ag mewn tri lleoliad gwahanol yng nghyffiniau agos y safle. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae boeler/simnai 1 wedi'u lleoli i'r dde wrth edrych ar yr adeilad o'r ffordd gyfagos, ac mae boeler/simnai 2 wedi'u lleoli i'r chwith. Yn ystod pob ymweliad, nododd Swyddogion y dyddiad a'r amser, amodau'r tywydd, cadarnhad bod y boeler ynghyn, y ffynhonnell danwydd, disgrifiad o'r allyriadau ac unrhyw sylw perthnasol arall.

O 20 Tachwedd 2020 hyd at 15 Rhagfyr 2020, roedd boeler/simnai 1 yn weithredol. Gwnaed saith ymweliad i gyd.

Ar y diwrnodau hyn, roedd yr allyriadau yn gyffredinol glir neu'r isaf posibl a nododd y Swyddog mai ychydig iawn o arogl mwg oedd ar y safle wrth ymyl yr adeilad neu yn yr iard gyfagos i'r de. Yn ystod y diwrnodau hyn, roedd ychydig iawn o fwg neu ddim mwg o gwbl ac ymddangosai cyfeiriad y gwynt fel pe bai o'r gogledd/gogledd-ddwyrain. Eithriad bach i hyn oedd ar 15 Rhagfyr pan ymddangosai fel pe bai cyfeiriad y gwynt o'r de-orllewin (h.y. tuag at y garafán) er yn ysgafn. Yn ystod yr ymweliad hwn, nododd y Swyddog ychydig o arogl mwg wrth ymyl y garafán, ond nid oedd hwn yn llethol.

Yn ystod 16 ac 17 Rhagfyr 2020, roedd boeler/simnai rhif 2 ynghyn. Yn ystod y ddau ddiwrnod hwn, nododd y Swyddog bod allyriadau mwg yn lledu tuag at y garafán ac roedd mwg i'w weld yn amlwg yn yr aer wrth ymyl y garafán; ymddangosai fel petai'n amrywio o ran cryfder yn ôl y chwythymau gwynt.



Yn sgil y sylwadau negyddol a nodir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeiswyr yn ystod 16 ac 17 Rhagfyr, mae boeler/simnai rhif 2 wedi'u heithrio'n fwrriadol o'r cais cyfredol hwn. Mae'r ymgeiswyr felly wedi gwneud cais i gadw boeler/simnai 1 yn unig, sef yr un bellaf o'r garafán.

#### **CASGLIAD:**

Ers y cyfnod profi, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod yn pendroni a ellir cefnogi caniatâd cynllunio parhaol yma. Daethpwyd i'r casgliad, fodd bynnag, nad yw'r gefnogaeth hon ar ddod.

Er bod Swyddog lechyd yr Amgylchedd yn nodi y byddai'r arogl yn disgyn ymhell islaw'r prawf ar gyfer niwsans cyhoeddus, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi casglu bod yr effaith ar amwynderau preswyl yr ardal yn debygol o fod yn annymunol, yn enwedig i breswylwyr y garafán gyfagos. Lleolir y garafán hon yn agos iawn i'r safle ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bryderus y bydd gwyntoedd de-orllewinol yn benodol yn cario mwg ac arogl i safle'r garafán. Yn wir, ar yr ychydig ddiwrnodau y bu'r boeler yn weithredol ers y cyfnod profi, derbyniodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol adroddiadau am arogl mwg cryf gan breswylwyr y garafán.

Ni all yr Awdurdod Cynllunio Lleol ganiatáu amodau byw annymunol a pharhaol ar gyfer y preswylwyr ac felly mae'n rhaid iddo wrthod yr argymhelliad.

Buwyd yn pwysu a mesur y canlyniadau i'r busnes yn rhan o'r ystyriaethau, ond ni ddaethpwyd i argymhelliad gwahanol. Gallai'r busnes wresogi'r swyddfa fach yn ddigon rhwydd drwy ddull arall, a gellid dadlau na fyddai angen gwresogi ardal y gweithdy, sef mwyafrif yr adeilad, o gwbl.

Argymhellir, felly, bod y cais yn cael ei wrthod.

**ENW'R AELOD LLEOL:** Y Cynghorydd Hag Harries (Ward Llanbedr Pont Steffan)

#### **RHESYMAU A RODDWDYD GAN YR AELOD LLEOL DROS OFYN AR I'R CAIS GAEL EI YSTYRIED GAN Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:**

Mae'r Cynghorydd Harris wedi gofyn ar i'r cais gael ei glywed gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

#### **ARGYMHELLIAD:**

**GWARTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO** ar y sail bod cadw'r cynnig yn debygol o arwain at niwed i amwynderau preswyl y trigolion cyfagos, yn groes i ddarpariaethau Dyfodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a pholisïau DM06, LU25 a DM22 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion mabwysiedig 2007-2022.

#### **RHESWM DROS OHIRIO:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar yr 8fed o Fehefin, 2022, penderfynodd yr Aelodau gyfeirio'r cais i'r Panel Archwilio Safle (SIP), yn unol â phwynt 4,5 a 7 o'r Gweithdrefnau Gweithredol.

Cyfarfu'r SIP ar ddydd Mawrth, 28ain o Fehefin, 2022 ac yn bresennol oedd y Cynghorwyr Rhodri Davies (Cadeirydd), Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies a Gareth Lloyd. Ymddiheurodd y Cynghorydd Ifan Davies gan nad oedd yn gallu fod yn bresennol.

Roedd yr ymgeisydd ond yn bresennol er mwyn rhoi mynediad i'r adeilad ac nid oedd yn bresennol yn ystod yr archwiliad nag yn ystod y trafodaethau.

Archwiliwyd y safle'n drylwyr gan yr aelodau, gan gynnwys lleoliad y boeleri biomas a'r ffliwiau cysylltiedig, ynghyd â lleoliad yr odyn sychu coed a'r tri ffan mewnol. Ymwelodd yr aelodau hefyd â chwrtil Dolau Bachau (h.y. y garafan gyfagos), lle rhoddwyd sylw arbennig i'r berthynas a'r agosrwydd rhwng y garafan a safle'r cais. Bu aelodau hefyd yn archwilio'r ardal tua'r dref, cyn belled â Thŷ Hir.

Ar ôl yr arolygiad, daeth yr Aelodau ynghyd i drafod eu canfyddiadau, lle mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau.

Yn gyntaf, roedd yr Aelodau'n dymuno canmol yr ymgeiswyr am weithio gyda'r ACLI yn ystod y cais, wrth geisio ddod o hyd i fesurau lliniaru addas. Roedd yn gysur i'r aelodau glywed nad oedd y boeler sydd agosaf at y garafan yn rhan o'r cais presennol a bod yr ymgeiswyr wedi datgan eu bwriad i werthu'r ail foeler hwn. Nododd yr aelodau hefyd mai dim ond yn ystod oriau gwaith y byddai'r boeler yn cael ei oleuo. Nododd yr aelodau ymhellach bwysigrwydd y busnes i'r economi leol.

O ran y gwrthwynebiadau yn ymwneud â'r pryderon sŵn, (sy'n deillio o'r odyn sychu coed), awgrymodd yr Aelodau y bosiblirwydd o ofyn i'r ymgeisydd godi panel lliniaru sŵn wrth ymyl yr odyn. Fodd bynnag, ar ôl trafodaeth bellach ar y mater, daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oedd angen gosod panel o'r fath, oherwydd nad oedd y sŵn yn sylweddol uchel (yn enwedig o'i gymharu â'r gweithgareddau busnes sydd eisioes yn cael eu cynnal ar y safle) ac oherwydd nad oedd y sŵn yn gyson. Petai'n cael tyfu, byddai'r clawdd ar hyd ffin y safle yn ateb yr un diben.

Mewn perthynas â'r arogleuon mwg, sef prif bryder y Swyddogion, cydnabu'r Aelodau yn ystod y SIP fod arogleuon mwg yn bresennol ar safle'r cais ac yn cwrtil y garafan. (Roedd yn ymddangos bod y gwynt yn chwythu o gyfeiriad y de-orllewin ar y diwrnod, felly ni chanfuwyd unrhyw arogleuon yn Nhŷ Hir yn ystod yr arolygiad). Fodd bynnag, roedd yr aelodau o'r farn nad

oedd yr arogleuon yn llethol ar y diwrnod nac yn niweidiol i'r fath raddau fel y gellid cyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar sail amwynder. Fodd bynnag, cydnabu'r Aelodau y gallai amodau atmosfferig gwahanol arwain at amodau gwaeth neu gwell ar ddiwrnodau eraill.

Awgrymodd un Aelod y posibilrwydd o gynyddu uchder y simnai er mwyn lleihau effaith yr arogleuon.

Dywedodd yr Aelodau hefyd fod y teulu a oedd yn arfer byw yn y garafan, bellach wedi symud i rywle arall, a bod y garafan yn mynd i gael ei rhentu. Roeddent yn dadlau y byddai unrhyw feddianwyr yn y dyfodol yn ymwybodol o bresenoldeb y boeleri biomas cyn eu meddiannu.

I gloi, daeth yr Aelodau i gonsensws nad oedd yr arogleuon a brofwyd ar y diwrnod yn ddigon niweidiol i gyfiawnhau gwrthod y cais ond cydnabu'r Panel hefyd fod eu sylwadau yn seiliedig ar yr amodau a brofwyd ar y diwrnod penodol hwnnw yn unig.

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A201119
<b>Derbyniwyd / Received</b>	17-12-2020
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Retention of Biomass Log Dryer Kiln and two Chimneys and continued use of Boiler No.1 only (within centre of building) following trial run relating to Temporary Planning Permission A190302
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Cae Celyn, Llanfair Road, Lampeter, SA48 8JX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr Meirion & Emyr Williams (Lampeter Tree Services Ltd), Lampeter Tree Services, Lampeter, Ceredigion, SA48 8JX
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Phil Baxter (Asbri Planning), Asbri Planning, Suite D, 1st Floor 220 High Street, Swansea, SA1 1NW

#### THE APPLICATION SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY:

The application site is located approximately 65m beyond the last residential property to the east of Lampeter along Llanfair Road. The site sits outside the boundary of the Urban Service Centre of Lampeter and is therefore classed as an "other location" for the purposes of the LDP.

In terms of the proximity of neighbouring residential properties, the closest neighbour is in the form of a static caravan, which is positioned immediately to the east of the application site. The caravan is known as "Dolau Bachau".

There is a further cluster of existing residential properties located to the west, the closest of which (Ty Hir) is located some 65m from the boundary of the application site. There is also a new housing estate to the west, (on the northern side of Llanfair Road).

On the 28<sup>th</sup> July, 2016, full planning permission (reference A160157) was granted at the site for the erection of a detached, portal frame building with associated access, engineering and landscaping works. The decision to grant planning permission was made by Members of the Development Control Committee, contrary to the officer recommendation to refuse. The planning permission has been implemented, with the building having been completed and operational. The building is utilised as part of the business headquarters for Lampeter Tree Services Ltd, which is a tree contracting service. The building is primarily used for the storage of forestry and safety equipment, along with ancillary office use, meeting rooms, toilet and kitchenette.

Condition no.7 of that planning permission states that:

